Eco'r Wyddfa – Ebrill 2016

Ar y 18ed o Fawrth bu'r actores Anwen Carlisle yma yn rhoi perfformiad ac adrodd hanes Glenys Myfanwy Jenkins oedd yn cadw siop yn Abertawe yn ystod y blitz, 1941.

Dyma luniau o'r plant yn mwynhau'r perfformiad.

Eisteddfodau'r Urdd – Cylch a'r Sir

Bu plant yr ysgol yn llwyddiannus iawn yn y ddwy Eisteddfod. Mae'r côr a'r ensemble ac Osian Trefor Hughes yn mynd ymlaen i'r Genedlaethol yn Fflint. Llongyfarchiadau iddynt oll a phob hwyl yn y Genedlaethol.

Dafydd a Ioan Bean ac Erin Wyn Williams oedd aelodau'r Parti Ensemble sydd yn mynd i'r Fflint. Profodd Dafydd a Ioan lwyddiant hefyd ar y ddeuawd i Bl 6 ac iau a Dafydd gyda'r cerdd dant unigol.

Osian Trefor Hughes

Wedi ennill ar yr alaw werin a'r unawd yn y Sir ac wedi dod yn ail ar yr unawd cerdd dant i blant Bl 5 a 6.

Elin Dafydd Evans
Profodd Elin Dafydd lwyddiant gyda'r unawd pres i blant Bl 6 ac iau.

Pêl-droed

Bu tîm pêl-droed yr ysgol yn chwarae yn erbyn tîm Ysgol Dolbadarn, Llanberis yn ddiweddar. Colli o 1 gôl i 0 oedd yr hanes mewn gêm agos iawn. Doedd y ffaith mai dyfarnwr gwael o Lanbêr oedd yn dyfarnu – rhyw G Evans – o ddim cymorth i'n tîm ni.